# GWASANAETHAU CYFREITHIOL NFU CYMRU

## GWASANAETHAU CYFREITHIOL NFU CYMRU

Rhoi cymorth ariannol i aelodau Ffermwyr a Thyfwyr NFU Cymru, arweiniad proffesiynol, a mynediad uniongyrchol i Gwmnïau Panel Cyfreithiol NFU Cymru.



NFU


NFU CYMRU

NFU SUPPORTED BY

NFU Mutual



**TUDALEN 3**
NFU LEGAL A PHOLISI CYNGOR ARBENIGOL



**TUDALEN 4**
CYNLLUN CYMORTH CYFREITHIOL YR NFU




**TUDALEN 6**
PANEL CYFREITHIOL YR NFU



**TUDALEN 8**
GWASANAETH GWIRIO CONTRACT YR NFU



**TUDALEN 10**
GWASANAETH GWIRIO IECHYD CYFREITHIOL YR NFU



**TUDALEN 13**
CYFEIRIADUR PANEL CYFREITHIOL YR NFU

# CROESO

Mae'r NFU yn cynnig gwasanaeth cyfreithiol ardderchog, gyda'n gweithwyr cyfreithiol proffesiynol mewnol ac allanol yn cydweithio er budd ein haelodau. Mae ein cynghorwyr cyfreithiol cymwysedig mewnol yn gwbl ymroddgar ac ymrwymedig i'r gwaith a wneir ar ran ein aelodau, ynghyd ag arbenigedd ein Cwmnïau Panel Cyfreithiol dethol sydd â dealltwriaeth dda o'r hyn sydd yn wynebu'r gymuned ffermio a thyfu.

Rwy'n falch o fod yn Gadeirydd Bwrdd Cyfreithiol yr NFU yn cynnig cymorth ariannol i danysgrifwyr ein Cynllun Cymorth Cyfreithiol (LAS) wrth iddynt wynebu adfyd, ac wrth wneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu busnesau a'u bywoliaethau.

**Nick Hamer | Cadeirydd Bwrdd Cyfreithiol yr NFU**



# NFU LEGAL A PHOLISI

Yn ychwanegol i'n cynnig o wasanaeth cyfreithiol digyffelyb, mae gan yr NFU dîm o gyfreithwyr mewnol sydd yn cynghori a chefnogi ein timau polisi wrth iddynt lobïo ar ran ein aelodau.



Mae'r Tîm Materion Cyfreithiol yn darparu cyngor i swyddogion, cyfarwyddwyr, staff ac aelodau NFU ar ystod enfawr o bynciau cyfreithiol, gan gwmpasu pob agwedd bolisi oddi-fewn i NFU ac ym mhob sector.

Mae'r tîm yn ymladd achosion cyfreithiol yr NFU ar ran y diwydiant ac yn cynhyrchu gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer aelodau ar faterion cyfreithiol sydd yn berthnasol i'w busnesau ffermio a thyfu.

Rwy'n falch iawn o gynnig cyfreithiol yr NFU – yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr, proffesiynol, ac unedig i'n haelodau pan fyddant angen ein cefnogaeth fwyaf.

**Andrew Clark | Cyfarwyddwr Polisi yr NFU**

# CYNGOR ARBENIGOL

Mae ein tîm o ymgynghorwyr cyfreithiol a thechnegol cymwysedig yn rhan o NFU CallFirst – llinell gymorth deliffon rhad ac am ddim* sydd yn neilltuedig i aelodau NFU. Gallant ddarparu cyngor a chanllaw proffesiynol ar ystod gynhwysfawr o bynciau, o gyfreithiau cyflogi, iechyd a diogelwch, a chynllunio, i faterion cyfreithiol mwy dyrys; mae'r tîm yma i'ch cefnogi a'ch cynorthwyo i redeg eich busnes yn fwy effeithiol.

Os bydd angen cyngor manylach, caiff eich ymholiad ei gyfeirio at un o Gwmnïau Panel Cyfreithiol yr NFU yn eich rhanbarth. Sicrhewch fod eich rhif aelodaeth yn barod er mwyn i'n tîm ateb eich ymholiad mor gyflym ac effeithiol â phosib.

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8yb i 5yp (gan eithrio gwyliau banc).

**Bydd galwadau i rifau 0370 yn cael eu tynnu allan o unrhyw funudau a gynhwysir yn eich cynllun ffôn symudol neu linell dir am alwadau cenedlaethol. Os nad oes gennych funudau rhad, nid yw'n ddrytach na galw rhifau cyfradd cenedlaethol sydd yn dechrau gydag 01 neu 02.*
*Gall oriau agor newid.*

# CYNLLUN CYMORTH CYFREITHIOL YR NFU

## Darparu cymorth ariannol ar gyfer costau cyfreithiol a phroffesiynol.

Mae Cynllun Cymorth Cyfreithiol (LAS) yr NFU yn gynllun buddion dewisol unigryw a gynigir fel ychwanegiad dewisol i aelodau Ffermwr a Thyfwr yr NFU am £42 (+TAW) yn unig y flwyddyn.

Gyda bron at 90% o'n aelodau'n tanysgrifio iddo, mae'r cynllun yn rhoi arweiniad proffesiynol a chymorth ariannol* i chi tuag at gostau cyfreithiol a phroffesiynol eraill pe baech yn wynebu anghydfod yn ymwneud â'ch busnes ffermio a/neu dyfu.

## Mae buddion Cynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU yn cynnwys:

- Cyfraniad tuag at ffioedd proffesiynol
- Tîm CCC mewnol penodol yn cynnig arweiniad a chefnogaeth broffesiynol trwy gydol yr achos
- Cyfraniad at gostau cyfryngdod mewn anghydfodau rhwng aelodau
- £500 tuag at ffioedd proffesiynol ar gyfer Adolygiadau Panel Annibynnol y CTS
- Hyd at £600 tuag at gost cyngor cyllidebol ar gyfer adolygiadau rhent o dan Gwasanaeth Cyngor Tenants' First yr NFU
- Hyd at £300 tuag at gostau gosod arwyddion safle mewn achosion o bori anghyfreithlon
- Cyfraniad tuag at gostau proffesiynol apeliadau PPN (NVZ)
- Cyfrinachedd wedi'i sicrhau.

## Sut gallaf i gael mynediad at y gwasanaeth hwn?

Mae Cynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU ar gael i chi am gost flynyddol o £42 (+TAW) os ydych yn aelod Ffermwr a Thyfwr o'r NFU.

Os bydd angen cymorth ariannol arnoch, rhaid eich bod yn danysgrifiwr i'r CCC (LAS) pan fydd yr anghydfod yn codi. Os ydych yn gymwys, ystyrir cymorth ariannol o'r dyddiad y daw'r mater yn ffurfiol i sylw cynghorydd CallFirst yr NFU, eich ysgrifennydd grŵp NFU lleol, neu unrhyw aelod o staff yr NFU.

**Penderfynir ar bob achos ar ei ffeithiau a'i rinweddau cyfreithiol, ac mae dyfarniadau o blaid cymorth ariannol yn ddewisol. Mae'n bwysig nodi nad yw Cynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU yn bolisi yswiriant treuliau cyfreithiol, ac nid yw ychwaith yn cynnwys costau trydydd parti, eich gwrthwynebwyr nac unrhyw gostau anffafriol; yn lle hynny, mae'n cynnig gwasanaethau buddiol unigryw i danysgrifwyr.*

1.

Cysylltwch ag NFU CallFirst ar 0370 845 8458 i siarad â chynghorydd cyfreithiol a thechnegol am gyngor rhagarweiniol ac i wneud cais am arian CCC (LAS).

2.

Os oes angen cyngor manylach, caiff eich ymholiad ei gyfeirio at un o Gwmnïau Panel Cyfreithiol yr NFU yn eich ardal i gael trafodaeth gychwynnol rhad ac am ddim am eich achos.

3.

Bydd y cwmni'n darparu adroddiad cychwynnol a diweddariadau pellach i'r tîm CCC i ystyried cyllid tuag at eich costau cyfreithiol a phroffesiynol eraill.



"Y gwasanaeth pennaf i mi yw'r Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Am y 25 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn aelod o'r cynllun ac wedi cwestiynu pam, heb fyth ddychmygu y byddem yn defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae ein tyrbin gwynt wedi bod yn achos dau adolygiad barnwrol ac mae'r CCC wedi ein cefnogi'n sylweddol am bron y chwe mlynedd ddiwethaf, gan ddarparu mwy na'r cyfanswm o'n holl gostau aelodaeth NFU ers i mi ddod yn aelod ym 1989. Mae hynna, i mi, yn anhygoel."

**John Charles-Jones | Swydd Nottingham**

# PANEL CYFREITHIOL YR NFU

## Cynrychiolaeth gyfreithiol sy'n rhoi tawelwch meddwl i chi.

Mae Panel Cyfreithiol yr NFU yn cynnwys 16 o gwmnïau cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr sy'n cynnig cymorth lleol i aelodau Ffermwr a Thyfwr yr NFU a gostyngiad o 12.5% oddi ar gyfraddau fesul awr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u busnes ffermio a thyfu.

Mae'r cwmnïau wedi'u dewis yn benodol gan yr NFU oherwydd eu profiad a'u harbenigedd mewn materion amaethyddol a garddwriaethol; gan gydymffurfio â gofynion yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Gall y cwmnïau hefyd helpu mewn meysydd o'r gyfraith nad ydynt yn ymwneud â ffermio ac mae eu cyngor yn gwbl ddiduedd.

Mae ein cyfeiriadur o Gwmnïau Panel Cyfreithiol yr NFU i'w weld ar dudalennau 13-15 o'r llyfryn hwn.

## Pam y fyddech chi angen cyfreithiwr?

- Rydych wedi derbyn contract i'w lofnodi
- Gofynnwyd i chi fynychu cyfweliad dan rybudd
- Mae gennych anghydfod cyfreithiol
- Rydych wedi derbyn llythyr cyfreithiwr
- Rydych chi'n ystyried arallgyfeirio
- Rydych wedi derbyn llythyr neu hysbysiad gan un o adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth.



"Nid oeddem ni erioed wedi wynebu ymgyfreithiad o'r blaen, ac yn sydyn pan rydych chi yn y sefyllfa hwnnw, mae angen help llaw cyfeillgar arnoch chi – dyma beth gaethom ni gan ein cyfreithwyr panel NFU lleol a wnaeth ddarparu'r gefnogaeth yr oeddem ni yn wirioneddol angen, roeddent yn wych."

## Mae'r panel yn cynnig y buddion canlynol i'n haelodau:

- Gostyngiad o 12.5% ar gyfraddau fesul awr
- Ffioedd penodol am wasanaethau penodol
- Gweithredu fel siop pob dim ar gyfer aelodau'r NFU
- Adroddiad cychwynnol rhad ac am ddim i gefnogi'ch cais am gyllid CCC (LAS) lle fo'n briodol
- Mynediad hygyrch, gydag o leiaf dau gwmni yn eich rhanbarth
- Cyngor cynhwysfawr beth bynnag yw'r broblem - busnes, eiddo neu deuluol
- Darparu Gwasanaeth Gwirio Contract yr NFU - gan eich helpu i ddeall yn union beth rydych yn ei lofnodi
- Darparu Gwasanaeth Gwirio Iechyd Cyfreithiol yr NFU – gan helpu i nodi pryderon neu faterion cyfreithiol y gallai fod angen sylw ar eich fferm.

## Beth i'w wneud os oes gennych ymholiad cyfreithiol.

1.

**Cam 1: NFU CallFirst**
Fel rhan o'ch aelodaeth o'r NFU mae gennych eisoes fynediad at dîm o arbenigwyr cyfreithiol yn NFU CallFirst drwy ffonio 0370 845 8458. Byddant yn cynnig cyngor cychwynnol rhad ac am ddim i chi ac yn ceisio datrys eich ymholiad.

2.

**Cam 2: Cyfeirio**
Os nad yw cynghorydd cyfreithiol a thechnegol yr NFU yn medru datrys eich ymholiad, byddant yn eich cyfeirio at un o'r 16 cwmni arbenigol ar Banel Cyfreithiol yr NFU sydd yn lleol i chi.

3.

**Cam 3: Cwmni Panel Cyfreithiol yr NFU**
Bydd eich cwmni lleol yn gweithio'n agos gyda chi i gefnogi'ch ymholiad ac i gynorthwyo gyda'ch cais i Gynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU os yw'ch achos yn gymwys am gymorth ariannol.

# GWASANAETH GWIRIO CONTRACT YR NFU

## Cymorth i ddeall yn union beth rydych chi'n ei arwyddo.

Yn y byd sydd ohoni, rydym ni i gyd yn gwybod bod contractau'n gallu bod yn gymhleth a'u bod yn aml yn cael eu hysgrifennu mewn iaith sydd yn medru peri penbleth a dryswch i ni. O bryd i'w gilydd efallai cewch eich ysgogi i ymrwymo i gontract nad ydych yn gwbl siŵr yn ei gylch.

Gall ceisio cyngor cynnar cyn arwyddo ar y linell ddotiog eich amddiffyn rhag anghydfodau cyfreithiol a allai fod yn gostus, yn hirfaith, ac yn llawn straen yn y dyfodol. Dyna pam fod yr NFU ar y cyd â'n Cwmnïau Panel Cyfreithiol yn hynod falch o gynnig Gwasanaeth Gwirio Contractau i aelodau Ffermwr a Thyfwr yr NFU. Gall Cwmnïau'r Panel Cyfreithiol wneud y gwaith ar eich rhan gan gynnig eu cyngor proffesiynol annibynnol i sicrhau eich bod yn deall eich hawliau a'ch dyletswyddau, ac yn fodlon bod eich nodau a'ch amcanion wedi eu bodloni cyn llofnodi'r contract.

## Pryd gellir ddefnyddio'r gwasanaeth?

- Pan fyddwch yn derbyn contract gan rywun arall rydych yn bwriadu masnachu â nhw neu brynu ganddynt
- Pan fyddwch yn dymuno cyhoeddi contract newydd eich hun ar gyfer trafodiad busnes rydych ar fin ymrwymo iddo gyda rhywun arall
- Pan fyddwch chi neu'r parti arall yn cynnig newidiadau i unrhyw un o delerau ac amodau contract presennol.



## Sut mae cael mynediad at y gwasanaeth?

1.

Cysylltwch â NFU CallFirst drwy ffonio 0370 845 8458. Bydd cynghorydd cyfreithiol a thechnegol yr NFU yn cael trafodaeth gychwynnol rhad ac am ddim gyda chi ac yna gallant eich cyfeirio at un o Gwmnïau Panel Cyfreithiol yr NFU. Cewch eich cyfeirio at y cwmni perthnasol yn eich ardal, a fydd yn cysylltu â chi oddi fewn i 48 awr er mwyn trafod eich contract.

2.

Bydd Cwmni Panel Cyfreithiol yr NFU yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion a'ch amcanion, ynghyd ag adolygu'r dogfennau y byddwch yn anfon atynt.

Byddant yn adolygu'r contract ac yn cysylltu â chi gyda dyfynbris penodol am y gwasanaeth yn seiliedig ar ei gymhlethdod, ei werth ac mewn rhai achosion, ei hyd. Os cytunir arno, bydd y cwmni wedyn yn cynhyrchu adroddiad syml i adlewyrchu eich amcanion a'ch helpu i ddeall y contract.

Mae'r NFU wedi cytuno cyfraddau ffafriol unigryw ar gyfer aelodau Ffermwr a Thyfwr yr NFU sydd yn dechrau o gyn lleied â £275.00 (+ TAW) ar gyfer yr adroddiad yng ngham 2 (yn dibynnu ar gymhlethdod a gwerth y contract). Wrth bwyso'r gost honno yn erbyn gwerth y contract i'ch busnes, mae'n debygol o fod yn arian wedi ei wario'n dda.

3.

Os hoffech iddynt wneud hynny, bydd Cwmni Panel Cyfreithiol yr NFU yn ystyried y contract yn fwy manwl ac yn eich cynorthwyo i aildrafod telerau penodol gyda'r parti arall a/neu'n cynghori'n fanylach ar beth mae'r contract yn ei olygu i'ch busnes chi.

Bydd y tâl yng ngham 3 naill ai ar gyfraddau safonol yr awr y cwmni (gyda gostyngiad o 12.5% i aelodu'r NFU), neu os yw'n bosibl, ar delerau penodedig a gytunir yn uniongyrchol gyda'r cwmni cyn iddynt wneud unrhyw waith.

# GWASANAETH GWIRIO IECHYD CYFREITHIOL YR NFU

## Adnabod pryderon neu faterion cyfreithiol a allai fod angen sylw ar eich fferm.

Mae'r NFU ar y cyd â'n Cwmnïau Panel Cyfreithiol yn falch o gynnig Gwiriad Iechyd Cyfreithiol cychwynnol rhad ac am ddim parthed busnesau ffermio neu dyfu aelodau Ffermwr a Thyfwr yr NFU. Nod y gwasanaeth hwn yw helpu i adnabod ac amlygu unrhyw faterion posib, bylchau cyfreithiol neu faterion eraill y gallai fod yn fanteisiol i aelodau fynd i'r afael â nhw er mwyn helpu sicrhau eu busnesau ffermio, tyfu neu arallgyfeirio.

Gall y Gwiriad Iechyd Cyfreithiol hefyd fod o gymorth sylweddol wrth danategu gwydnwch busnes. Yn ystod y cyfnod digynsail hwn o newid gyda gweithrediad y Cynllun Pontio Amaethyddol, Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol (ELMS), Taliadau Swmp Cyfan, i enwi ond ychydig, gallai'r Gwiriad Iechyd Cyfreithiol hwn gynorthwyo mewn sawl ffordd - gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y meysydd canlynol:

- Materion eiddo (gan gynnwys perchnogaeth, tenantiaethau, cofrestru tir)
- Cynllunio ystadau (gan gynnwys Ewyllysiau, Pŵer Atwrnai Parhaus, Gweithredoedd Ymddiriedolaeth ac ati)
- Strwythurau busnes
- Cyfran-ffermio
- Ffermio contract
- Hawliau Tramwy (gan gynnwys ceisiadau Adran 31(6))
- Cynllunio olyniaeth
- Cyflogaeth
- Arallgyfeirio

## Beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnwys?

Bydd y gwasanaeth yn cynnwys trafodaeth gychwynnol rhad ac am ddim gydag aelodau naill ai ar y fferm neu yn rhithiol, fel a gytunir gyda Chwmni Panel Cyfreithiol yr NFU (efallai bydd y broses yn cychwyn gan gwblhau holiadur ar-lein i'w cynorthwyo wrth ddeall natur y fusnes a nodi'r problemau tebygol i'w hystyried), gan yna greu adroddiad syml gydag unrhyw sylwadau cychwynnol a/neu argymhellion. Gall aelodau sydd wedyn yn dymuno bwrw ymlaen gydag unrhyw argymhellion a nodwyd yng nghyfnod yr adroddiad yn cytuno ar gwmpas a chost unrhyw waith ychwanegol yn uniongyrchol gyda'r Cwmni Panel Cyfreithiol NFU penodol hwnnw. Bydd telerau ac amodau'r Gwiriad Iechyd Cyfreithiol yn ddarostyngedig i delerau ac amodau arferol y cwmni.

## Faint mae'n ei gostio?

Mae Gwasanaeth Gwiriad Iechyd Cyfreithiol cychwynnol yr NFU yn rhad ac am ddim ac wedi'i gynllunio i ddarparu adroddiad i aelodau sy'n amlygu unrhyw bryderon neu faterion cyfreithiol sydd angen sylw. Pe bai unrhyw waith yn cael ei adnabod a'i gomisiynu wedyn, yna bydd y darn hwnnw o waith yn cael ei wneud ar gyfraddau safonol yr awr y cwmni (gyda gostyngiad NFU o 12.5%).
Fel arall, efallai bydd modd cytuno ar delerau penodol yn uniongyrchol gyda'r cwmni cyn iddynt ymgymryd ag unrhyw waith.

## Sut mae cael mynediad at y gwasanaeth?

**1.**

Dylai aelodau ffonio NFU CallFirst ar 0370 845 8458 i gael trafodaeth gychwynnol rhad ac am ddim gyda chynghorydd cyfreithiol a thechnegol yr NFU a fydd wedyn yn eich cyfeirio at Gwmni Panel Cyfreithiol NFU priodol yn eich ardal.

**2.**

Bydd Cwmni Panel Cyfreithiol yr NFU yn cysylltu â chi i gael trafodaeth gychwynnol rhad ac am ddim. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch hefyd yn derbyn holiadur ar-lein gan y cwmni i gychwyn y broses. Pwrpas y cwestiynau yw i amlygu'r meysydd yn eich busnes y gallech fod eisiau cyffwrdd arnynt cyn y drafodaeth neu'r cyfarfod.

**3.**

Bydd Cwmni Panel Cyfreithiol yr NFU yn trefnu ymweliad neu drafodaeth rithwir fel y bo'n briodol ac a gytunir gyda chi. Bydd hyn yn arwain at lunio adroddiad amlinellol byr i gytuno ar y meysydd sydd angen sylw er mwyn gosod y fusnes ar y trywydd cywir.

**Cynnig arbennig!**

Gall aelodau'r NFU sy'n tanysgrifio i Gynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU* wneud cais am gymorth ariannol hyd at uchafswm o £1,000 ar gyfer pedair set o gyfarwyddiadau (£250 yr un) a gynhyrchir gan y Gwiriad Iechyd Cyfreithiol.

**Mae rheolau CCC (LAS) arferol yn berthnasol*





"Rydym wir yn gwerthfawrogi Cynllun Cymorth Cyfreithiol yr NFU. Roedd gennym broblem gydag aflonyddu ar ein stoc, lle ymosododd gi ar ein defaid, ac fe gollwyd saith ohonynt. Fe wnaethom ni ffonio'r NFU, a ddywedodd eu bod yn fwy na pharod i'n cynrychioli ni o safbwynt cyfreithiol , gan wir roddi'r hyder i ni sefyll yn y llys ac ymladd ein hachos."

Teulu Walmsley | Swydd Gaerhirfryn

# CYFEIRIADUR PANEL CYFREITHIOL YR NFU

## GOGLEDD

Swydd Gaer

### BOWCOCK CUERDEN LLP

South Cheshire House, Manor Road, Nantwich Cheshire CW5 5LX
Contact: Lesley Smith
E: LSmith@bowcockcuerden.co.uk | Ffôn: 01270 611 106
www.bowcockcuerden.co.uk

Northumberland, North Riding, Durham a Tyne and Wear

### JACKSONS LAW FIRM

17 Falcon Court, Short Close, Preston Farm Industrial Estate,
Stockton on Tees TS18 3TU
Contact: Nicola Neilson
E: nneilson@jacksons-law.com | Ffôn: 01642 356 500
www.jacksons-law.com

Dwyrain Efrog, Gorllewin Efrog a De Swydd Efrog

### CROMBIE WILKINSON SOLICITORS

Forsyth House, 3 Market Place, Malton YO17 7LP
Contact: Amy Clarkson
E: a.clarkson@crombiewilkinson.co.uk | Ffôn: 01653 600 070
www.crombiewilkinson.co.uk

Swydd Gaerhirfryn, Cumbria, Glannau Mersi a Manceinion

### NAPTHENS SOLICITORS

Darwen House, Walker Business Park, Blackburn BB1 2QE
Contact: Andrew Holden
E: andrew.holden@napthens.co.uk | Ffôn: 01254 686 216
www.napthens.co.uk

## CYMRU

De a Chanolbarth Cymru

### JCP SOLICITORS

Venture Court, Waterside Business Park, Valley Way, Enterprise Park,
Swansea SA6 8AH
Contact: Rhys Evans
E: Rhys.Evans@jcpsolicitors.co.uk | Ffôn: 02920 379 568
www.jcpsolicitors.co.uk

Gogledd a Chanolbarth Cymru

### AGRI ADVISOR

Swyddfa Y Bala, 68 Stryd Fawr, Bala, Gwynedd LL23 7AD
Contact: Awel Mai Hughes
E: awel@agriadvisor.co.uk | Ffôn: 01678 444 005
www.agriadvisor.co.uk

## DE

Hampshire, Ynys Wyth, Berks, Bucks ac Oxon

### THRINGS SOLICITORS

Stuart Court, Salisbury Road, Romsey SO51 6DJ
Contact: Russell Reeves
E: rreeves@thrings.com | Ffôn: 01794 310 300
www.thrings.com

Gwlad yr Haf, Dorset, Wiltshire a Swydd Gaerloyw

### CLARKE WILLMOTT LLP

Blackbrook Gate, Blackbrook Park Avenue, Taunton TA1 2PG
Contact: Esther Woolford
E: Esther.Woolford@clarkewillmott.com | Ffôn: 0345 209 1840
www.clarkewillmott.com

Dyfnaint a Chernyw

### FOOT ANSTEY LLP

Senate Court, Southernhay Gardens, Exeter EX1 1NT
Contact: Edward Venmore
E: edward.venmore@footanstey.com | Ffôn: 01392 685 273
www.footanstey.com

## DWYRAIN

Swydd Bedford, Swydd Huntingdon, Swydd Caergrawnt a Norfolk

### HCR HEWITSONS

50-60 Station Road, Cambridge CB1 2JH
Contact: Denise Wilkinson
E: dwilkinson@hcrlaw.com | Ffôn: 01223 532 743
www.hcrlaw.com

Essex, Swydd Hertford a Suffolk

### TEES

Tees House, 95 London Road, Bishop's Stortford,
Hertfordshire CM23 3GW
Contact: Jason Torrance
E: jason.torrance@teeslaw.com | Ffôn: 0330 135 5797
www.teeslaw.com

Surrey ac Gorllewin Sussex

### THRINGS SOLICITORS

Stuart Court, Salisbury Road, Romsey SO51 6DJ
Contact: Russell Reeves
E: rreeves@thrings.com | Ffôn: 01794 310 300
www.thrings.com

## DWYRAIN

Caint a Dwyrain Sussex

### WARNERS SOLICITORS

Bank House, Bank Street, Tonbridge, Kent TN9 1BL
Contact: Michael McNally
E: m.mcnally@warners.law | Ffôn: 01732 375 396
www.warners-solicitors.co.uk

## CANOLBARTH LLOEGR

Swydd Gaerlŷr, Swydd Northampton a Rutland

### JOSIAH HINCKS SOLICITORS

The Manse, 22 De Montfort Street, Leicester LE1 7GB
Contact: Andrew Eagle
E: rae@josiahhincks.co.uk | Ffôn: 0116 255 1811
www.josiahhincks.co.uk

Swydd Nottingham a Swydd Lincoln

### WILKIN CHAPMAN LLP

The Maltings, 11-15 Brayford Wharf East, Lincoln LN5 7AY
Contact: Andrew Holt
E: andrew.holt@wilkinchapman.co.uk | Ffôn: 01522 512 345
www.wilkinchapman.co.uk

Swydd Stafford, Swydd Amwythig a Swydd Henffordd

### LANYON BOWDLER

Chapter House North, Abbey Lawn, Abbey Foregate, Shrewsbury, Shropshire SY2 5DE
Contact: Brian Evans
E: brian.evans@lblaw.co.uk | Ffôn: 01743 280 287
www.lblaw.co.uk

Swydd Warwick a Swydd Gaerwrangon

### SHAKESPEARE MARTINEAU

Bridgeway House, Bridgeway, Stratford Upon Avon CV37 6YX
Contact: Jennie Wheildon
E: jennie.wheildon@shma.co.uk | Ffôn: 01789 416 527
www.shma.co.uk

Swydd Derby

### BOWCOCK CUERDEN LLP

South Cheshire House, Manor Road, Nantwich Cheshire CW5 5LX
Contact: Lesley Smith
E: LSmith@bowcockcuerden.co.uk | Ffôn: 01270 611 106
www.bowcockcuerden.co.uk

# YN GRYFACH GYDA'N GILYDD.

NFU CallFirst 0370 845 8458

nfu-cymru.org.uk | nfuonline.com

Ymwadiad: Er y gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau cywirdeb y wybodaeth hon a'r cynnwys a ddarparwyd yn y llyfryn hwn ar y dyddiad cyhoeddi (Ionawr 2025), ni wneir unrhyw sylw ynghylch ei gywirdeb na'i gyflawnrwydd ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am wallau neu hepgoriadau. Mae'r NFU yn gweithredu fel y trydydd parti mewn perthynas â chynigion disgownt aelodau ac yn cadw'r hawl i newid neu ddileu'r cynigion hyn ar unrhyw adeg. Gall telerau ac amodau fod yn berthnasol i wasanaethau proffesiynol a gwobrau aelodau, sy'n rhan o'r cynnig aelodaeth.

NFU SUPPORTED BY

NFU Mutual

NFU261C - January 2025